# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **25 MEDI 2012** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL 2011-12 AR ATAL TWYLL A LLYGREDD** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ADOLYGU GWEITHGAREDDAU YN Y MAES HWN** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH GWASANAETH ARCHWILIO – RHEOLWR TWYLL DROS DRO** |
| **GWEITHREDU :** | **ER GWYBODAETH** |

## 1. RHAGARWEINIAD

Dan bolisi'r Cyngor ar atal Twyll a Llygredd, mae'n rhaid cyflwyno arolwg blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â gweithgareddau yn y maes hwn yn 2011/12. Mae Polisi'r Cyngor ar gyfer Atal Twyll a Llygredd yn rhoi sylw i'r meysydd isod:

- **Twyll:** "unigolyn(ion) y tu mewn i'r Awdurdod a'r tu allan iddo yn mynd ati'n fwriadol i ystumio datganiadau cyllidol neu gofnodiadau gyda golwg ar guddio ymdrechion i gamddefnyddio asedau neu sicrhau math arall o fudd".
- **Llygredd:** "cynnig, rhoddi, gofyn am neu dderbyn anogaeth neu gydnabyddiaeth a allai ddylanwadu ar yr hyn a wna unrhyw unigolyn".
- **Dwyn:**
- **Methiant i ddatgelu diddordeb:** p'un a yw'n golygu budd ariannol ai peidio.

Y rhain yw egwyddorion allweddol y polis ar gyfer atal twyll a llygredd:

- Lleihau'r cyfleon;
- Rhwystro;
- Atal;
- Canfod ac Ymchwilio;
- Erlyn a Hawlio'n ôl.

Mae'r egwyddorion hyn yn seiliedig ar:-

- Diwylliant ac Ymwybyddiaeth.

## 2. LLEIHAU CYFLEOEDD A RHWYSTRO

Prif nod y polisi hwn yw atal twyll, llygredd neu ladrad rhag digwydd yn y lle cyntaf. At ei gilydd, gwneir y gwaith hwn trwy fynd ati'n rheolaidd i weithredu rheolaethau ariannol, gan gynnwys gwaith siecio mewnol a hefyd trwy wahanu dyletswyddau. Mae'n amhosib cyflwyno adroddiadau'n systematig ar rwystro; nid oes ystadegau ar gael ar gyfer rhywbeth sydd heb ddigwydd. Fodd bynnag, rhoddir sicrwydd i Aelodau ynghylch effeithiolrwydd systemau rheoli mewnol gan yr Archwiliwr Mewnol a'r Archwiliwr Allanol a barn sicrwydd gan drydydd partïon eraill. Mae'r Adain Archwilio Mewnol yn adrodd i bob Pwyllgor Archwilio ar gynnydd a wnaed, gan gynnwys asesiad parhaus o'r system rheolaeth fewnol yn sgil adolygiadau a wnaed yn ystod y cyfnod. Rhoddir barn ar y fframwaith rheolaeth fewnol bob blwyddyn fel rhan o'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol

Mae enghreifftiau o weithgareddau arferol i rwystro twyll a llygredd yn cynnwys:

**(i)** Defnyddir gwaith a wneir yn rhagweithiol mewn perthynas â chynhyrchu a monitro adroddiadau ar daliadau dyblyg, ynghyd ag adolygiadau, gan gynnwys cysoni adroddiadau sefydliad i'r adain gyflogau, er mwyn nodi anghysondebau sy'n cael eu dilyn i fyny wedyn. Mae gwaith o'r fath yn ychwanegu at y system o reolaeth fewnol ac yn darparu elfen o reolaeth dros weithgareddau perthnasol.

**(ii)** Mae trefniadau cadarn ar gyfer delio gyda hawliadau yswiriant, gan gynnwys anfon hawliadau'n brydlon at ein cwmni yswiriant i'w harchwilio fel yn briodol. Rhoddir sylw prydlon i hawliadau dilys ond gwrthodir y gweddill, gan roi rhywfaint o ddiogelwch i'r Cyngor rhag unrhyw hawliadau twyllodrus.

**(iii)** Yn anffodus, mae casglu a bancio arian parod yn rheolaidd yn temtio rhai i "roi yma - cymryd acw" a hynny yn y pen draw yn arwain, o bosib, at ddwyn. Trwy fonitro'r patrwm bancio rydym yn ceisio cywiro'r sefyllfa cyn i unrhyw golledion ddigwydd. Gall y Tîm Incwm neu adolygiadau o benawdau incwm mewn cyllidebau ddwyn sylw at batrymau bancio hwyr neu gellir eu darganfod fel rhan o adolygiad sicrwydd a wneir gan drydydd parti. Mae gwaith dilyn-i-fyny a wneir wedyn gyda staff o gymorth i atal a dod o hyd i ladrad. Nodwyd enghreifftiau o'r fath yn y cyfnod y mae'r adroddiad hwn yn rhoi sylw iddo ac mae'r Adain Archwilio Mewnol wedi ymchwilio iddynt ac adrodd arnynt.

## 3. CANFOD, YMCHWILIO AC ERLYN

Gall amheuon godi o sawl ffynhonnell ynghylch dwyn gwirioneddol neu dwyll. Efallai y bydd staff yr Awdurdod yn dod ar draws pethau o'r fath trwy waith gweinyddol o ddydd i ddydd. Efallai hefyd y dônt i'r amlwg oherwydd rhywun allanol yn rhannu pryderon megis trwy ddefnyddio'r llinell barod ar gyfer twyll budd-daliadau, efallai fod staff adolygu a chydymffurfiaeth y Cyngor yn eu nodi, neu efallai y byddant yn dod i sylw'r Awdurdod hwn trwy asiantaethau eraill neu'r cyhoedd.

Beth bynnag fo natur yr amheuon, bydd raid i'r ymchwiliadau fod yn gymesur, yn gyfrinachol a hefyd yn deg. Weithiau gall amheuon neu haeriadau fod yn rhai drygionus neu godi oherwydd camgymeriadau; ond rhaid, fel egwyddor o'r pwys mwyaf, dybio bod rhywun yn ddieuog ac nid yw pob achos o ymchwilio yn arwain at gasgliad o ddrwgweithredu.

Ffactor o bwys wrth benderfynu a ddylid cyfeirio achos ac o ran cael ymchwiliad llwyddiannus yw safon y wybodaeth a ddarperir. Os gwneir cyfeiriadau dienw gyda honiadau heb unrhyw dystiolaeth i'w cefnogi, mae'r posibilrwydd o archwiliad llwyddiannus wrth gwrs yn gostwng yn sylweddol. Mae cyfeiriadau o'r fath yn wrthgynhyrchiol yn y pen draw oherwydd eu bod yn tynnu oddi wrth adnoddau prin y Cyngor ar gyfer gwaith ymchwilio.

**Achosion Twyll Budd-dal** - Yn 2011/12, cyfeiriwyd 427 o achosion o dwyll Budd-dal posib mewn perthynas â Budd-dal Tai / Budd-dal y Dreth Gyngor ac ystyriwyd bod 383 ohonynt yn addas ar gyfer ymchwilio iddynt. O'r 383 o achosion, rhoddwyd rhyw fath o gosb ffurfiol i 42 ohonynt. Daeth yr Adain Atal Twyll o hyd i werth £344,303 o ordaliadau budd-dal yn ystod 2011/12 oherwydd 'twyll neu gamgymeriad'.

Mae polisïau erlyn a sefydlwyd yn achos twyll Budd-dal yn cynnwys amrediad o sancsiynau sy'n caniatáu ymateb cymesur. Ar ben isaf y raddfa, mae rhybudd neu gosb weinyddol yn ddigon yn aml i danlinellu difrifoldeb y twyll ac i sicrhau na fydd yn digwydd eto. Nid yw'r Awdurdod yn gyndyn o erlyn twyllwyr yn yr achosion mwy difrifol. Mae'r tabl isod yn dangos math a nifer y sancsiynau a roddwyd yn 2011-12:

| | Erlyniad | | Cosb Weinyddol | | Rhybudd | | Budd-dal a Ordalwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2011-12 | 10 | | 6 | | 26 | | £344,303 |
| 2010-11 | 8 | | 5 | | 23 | | £165,023 |

Mae'r Awdurdod hefyd yn ystyried ei fod yn ganlyniad cadarnhaol os yw gordaliad budd-dal wedi ei ddarganfod a'i basio ar gyfer ei adennill yn sgil camau a gymerwyd gan y tîm ymchwilio. Mae'r gordaliadau budd-dal y cafwyd hyd iddynt yn y 12 mis diwethaf wedi cynyddu'n sylweddol ac wedi mwy na dyblu ers y flwyddyn gynt i £344,000. Er y bu rhywfaint o achosion gwerth uchel yn y flwyddyn ariannol, derbynnir bod y cynnydd wedi digwydd oherwydd nifer uwch o "dwyll a chamgymeriadau" lefel isel.

Yn y tabl isod, nodir dadansoddiad o'r cyfeiriadau Budd-dal yn y ddwy flynedd ddiwethaf:

| Ffynhonnell | 2010/11 Achosion | 2010/11 Achosion |
|---|---|---|
| Swyddogion Ymweld | 6 | 9 |
| Staff Budd-dal Tai | 6 | 2 |
| Y Dreth Gyngor/Yr Adain Adennill | 0 | 2 |
| Dienw | 4 | 1 |
| Adran Gwaith a Phensiynau | 6 | 3 |
| HBMS | 14 | 14 |
| Y Fenter Atal Twyll Genedlaethol | 3 | 4 |
| Eraill | 3 | 1 |

**Achosion Twyll Eraill** - yn ogystal ag ymchwilio i achosion a gyfeiriwyd mewn perthynas â Budd-daliadau, bu deg ymchwiliad i honiadau o dwyll neu gamweithredu arall y rhoddwyd gwybod amdanynt i'r Adain Archwilio Mewnol. Ar ôl ymchwilio i'r honiadau hyn, gwelwyd tystiolaeth o reolaeth fewnol wan mewn rhai achosion a chafwyd hyd i dystiolaeth o anghysondebau ac / neu dwyll yn sgil un o'r ymchwiliadau a gychwynnwyd yn ystod y cyfnod.

Canfu ymchwiliad Archwilio Mewnol nad oedd incwm arian parod wedi ei fancio'n systemataidd dros gyfnod o flynyddoedd. Ymddiswyddodd y gweithiwr dan sylw yn ystod yr ymchwiliad a disgwylir penderfyniad ynghylch pa gamau eraill i'w cymryd, os o gwbl.

Mae manylion y gwaith ymchwilio uchod yn dystiolaeth o ymrwymiad y Cyngor i ymchwilio i achosion a gyfeirir ato ac i gymryd camau priodol os deuir o hyd i gamweithredu a/neu dwyll a llygredd.

## 4. Y FENTER ATAL TWYLL GENEDLAETHOL

Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan yn y Fenter Atal Twyll Genedlaethol sy'n digwydd bob dwy flynedd, lle mae mathau arbennig o ddata a gedwir gan yr Awdurdod yn cael eu cyfatebu gyda data a gedwir gan awdurdodau eraill er mwyn dod o hyd i unrhyw anghysondebau a all fod yn arwydd o dwyll. Wrth benderfynu ar ryddhau gwybodaeth i bwrpas cyfatebu data, mae'n rhaid ystyried a yw unigolion wedi cael rhybudd teg o'r bwriad i brosesu eu gwybodaeth yn unol ag egwyddorion diogelu data.

Mae cymryd rhan yn y fenter hon yn ddull rhagweithiol o ddod o hyd i dwyll posib o fewn a rhwng systemau'r Cyngor. Fel sy'n wir am holl achosion a gyfeirir, nid oes digon o dystiolaeth ym mhob achos i gyfiawnhau cynnal ymchwiliad ond, lle mae tystiolaeth, mae'r Cyngor yn ymchwilio ac yn cymryd y camau priodol.

Cynhaliwyd yr ymarfer Cyfatebu Data yn ystod blwyddyn ariannol 2010/11 ond, oherwydd natur yr achosion a gafodd sylw, ni chafwyd casgliadau'r rhan fwyaf o'r achosion tan 2011/12. Cymerwyd rheolaeth o'r holl Ddata a oedd yn ymwneud â Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Cyngor gan y Tîm Ymchwilio i Dwyll Budd-dal. O'r achosion y rhoddwyd sylw iddynt gan y tîm, erlynwyd un unigolyn a rhoddwyd cosb i 3 arall.

Edrychwyd ar gyfanswm o 141 o achosion budd-dal a arweiniodd at ddod o hyd i gyfanswm o £37,950 o ordaliadau Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor. Roedd hyn yn seiliedig ar 6 achos o dwyll a 4 achos o gamgymeriad (gweler Atodiad 1 ar gyfer manylion yr achosion).

Mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio gyda sefydliadau eraill, yn arbennig y Gwasanaeth Ymchwilio i Dwyll yn yr Adran ar gyfer Gwaith a Phensiynau.

## 5. CYFATEBU DATA BUDD-DAL TAI

Cyfatebu Data Budd-dal Tai (HBMS) - mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i roi sylw i achosion a gyfeirir trwy'r gwasanaeth hwn. Achosion yw'r rhain lle mae anghysondeb wedi ei nodi trwy gymharu data Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor yn erbyn data a gedwir gan yr Adran ar gyfer Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Mae hyn yn arwain at gyfeirio achosion y mae'n rhaid ymchwilio iddynt a gallant gynnwys achosion o dwyll.

Yn 2011/12, cyfeiriwyd 14 achos ar gyfer ymchwiliad gan y Gwasanaeth Cyfatebu Budd-dal Tai o gymharu â'r un nifer yn 2010/11.

## 6. YR AWDURDOD TWYLL CENEDLAETHOL

Yn Ebrill 2011, cyhoeddodd yr Awdurdod Twyll Cenedlaethol y Strategaeth Ymladd Twyll yn Lleol. Amcangyfrifir bod twyll yn costio £2.2 biliwn i lywodraeth leol bob blwyddyn. Mae hwn yn arian y gellid ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau lleol. Mae Ymladd Twyll yn Lleol yn ddull strategol a ddatblygwyd gan lywodraeth leol, ar gyfer llywodraeth leol, ac mae'n rhoi sylw i'r angen am fwy o drefniadau atal a gorfodaeth mwy effeithiol.

Mae Ymladd Twyll yn Lleol yn amlinellu dull strategol a fydd, os caiff ei fabwysiadu ar draws llywodraeth leol, yn sicrhau y gellir diogelu awdurdodau lleol yn well rhag twyll ac y gallent hefyd gyfrannu at allu'r wlad i ddod o hyd i dwyllwyr a'u cosbi. Bydd y dull newydd yn cryfhau'r ymateb atal twyll ar draws llywodraeth leol a bydd yn golygu y bydd mwy o dwyllwyr yn cael eu dal, mwy o dwyll yn cael ei atal a mwy o arian yn dod yn ôl i'r awdurdodau.

Mae'r Awdurdod yn ystyried sefydlu trefniadau i ymchwilio i fathau eraill o dwyll sy'n cael effaith ar y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys twyll gyda Bathodynnau Parcio Glas, twyll gyda Mentrau Teithio Rhatach a thwyll disgownt Dreth Gyngor i bobl sengl.

## 7. GRŴP YMCHWILIO BUDD-DAL CYMRU

Grŵp yw hwn o swyddogion sy'n ymchwilio i dwyll budd-dal yng Nghymru. Mae'n rhwydwaith i'r ymchwilwyr gyfarfod a thrafod materion cyffredin sy'n cael effaith ar swyddogion ymchwilio yn yr Awdurdodau Lleol ac mae'n llwyfan cydnabyddedig i drafod y materion hyn. Yn ystod y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol diwethaf, ail-etholwyd Andrew Williams, Rheolydd Twyll Gweithredol y Cyngor, fel Cadeirydd y Grŵp am drydydd tymor.

## 8. HAWLIO'N ÔL

Pan ydym yn gallu gwneud hynny, ein nod yw adennill gwerth yr arian a gafodd ei ddwyn neu y twyllwyd yr Awdurdod ohono. Yn sgil ymchwiliadau i faterion twyll, nodwyd bod £344,303 o Fudd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor wedi ei ordalu yn 2011/12. Mae'r Awdurdod yn cymryd pob cam i adennill budd-dal a ordalwyd.

## 9. ATAL

Mae yna sawl ffordd o atal y rheini sy'n bwriadu twyllo. I dwyll ddigwydd, rhaid i gyfle godi i'r twyllwr gael arian neu fudd personol arall o'n systemau. Y llinell amddiffyn gyntaf, felly, yw sicrhau bod y systemau rheolaeth fewnol yn ddigonol ac nad ydynt yn darparu cyfleon o'r fath. Rhan fawr o waith yr Adain Archwilio Mewnol yw adolygu systemau rheolaeth, nodi gwendidau a gwneud argymhellion i sicrhau bod cyn lleied o gyfle â phosib i bobl dwyllo.

Ffordd arall o atal twyll yw rhoi neges glir i bawb bod y Cyngor yn wyliadwrus mewn perthynas â thwyll a llygredd ac y bydd yn gweithredu yn eu cylch. Atgyfnerthir y fath neges pan roddir gwybod i bobl y bydd eu manylion yn cael eu dilysu a'u gwirio, nid yn unig o fewn y Cyngor, ond rhwng cyrff cyhoeddus.

Mae rhoi cyhoeddusrwydd amlwg i achosion o dwyll ac erlyn troseddwyr yn ffordd dda o godi proffil y gwaith hwn ac atal twyll. Yn ystod 2011/12, cyhoeddodd yr Awdurdod ddatganiadau i'r wasg ynghylch erlyniadau llwyddiannus a gafodd sylw mawr yn y wasg leol. Mae cyhoeddi erlyniadau o'r fath yn cael ei weld fel cyhoeddusrwydd gwerthfawr sy'n cynhyrchu rhagor o achosion y mae'n werth ymchwilio iddynt ac sy'n atal pobl eraill a all fod yn ystyried cyflwyno ceisiadau twyllodrus.

Mae enghraifft o erlyniad ac o ddatganiad i'r wasg ynghlwm er gwybodaeth i'r adroddiad hwn yn Atodiadau 1 a 2.

## 10. DIWYLLIANT AC YMWYBYDDIAETH

Mae'r cyhoeddusrwydd a roddir i waith atal twyll ac erlyniadau llwyddiannus yn gymorth i feithrin diwylliant atal twyll yn yr Awdurdod. Mae diwylliant atal twyll cadarnhaol yn rhan o lywodraethu corfforaethol da.

Er mwyn codi ymwybyddiaeth, bwriedir darparu sesiwn hyfforddi yn 2012-13 ar atal twyll a llygredd. Bydd y sesiwn hyfforddi ar gyfer pob aelod o staff, ond yn arbennig y rheini sy'n gweithredu trefniadau rheoli mewnol allweddol o fewn systemau'r Cyngor.

Bydd y gweithdai hunanasesu blynyddol ar atal twyll a gyflwynir o 2012/13 (gweler isod os gwelwch yn dda) yn codi ymwybyddiaeth yr Aelodau yn y maes hwn.

## 11. SEFYDLU TREFNIADAU ATAL TWYLL A LLYGREDD YMHELLACH

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi penderfynu y bydd yn defnyddio rhestr wirio "Rheoli'r Risg o Dwyll - Camau i Atal Twyll a Llygredd" i hunanasesu effeithiolrwydd trefniadau Atal Twyll y Cyngor bob blwyddyn. Os ystyrir nad yw'r Cyngor yn cydymffurfio'n llawn gyda'r rhestr wirio arfer orau, cynhyrchir cynllun gweithredu a neilltuir camau i weithwyr perthnasol eu dilyn.

Nod yr ymarfer hwn yw sefydlu'n gadarnach weithgareddau a diwylliant Atal Twyll y Cyngor.

## 12. GWASANAETH SENGL YMCHWILIO I DWYLL

Ers cyhoeddi rhaglen Diwygio Lles y Llywodraeth yn 2010, ychydig o wybodaeth sydd gennym am effaith y rhaglen ar y ffordd y bydd Awdurdodau Lleol yn ymchwilio i dwyll budd-dal. Mae’r Llywodraeth yn datgan y bydd y Gwasanaeth Sengl Ymchwilio i Dwyll yn parhau i ddod i rym o Ebrill 2013 ymlaen. Mae'n amlwg y bydd hyn yn cael effaith ar swyddogion ymchwilio’r Awdurdodau Lleol. Fodd bynnag, mae rhaglen Twyll a Chamgymeriad yr Adran ar gyfer Gwaith a Phensiynau yn cadarnhau y bydd swyddogion ymchwilio’r Awdurdodau Lleol yn parhau i gael eu cyflogi gan yr Awdurdodau Lleol tan 2015. Fodd bynnag, o Ebrill 2013 ymlaen, byddant yn gweithio i bolisi’r Adran ar gyfer Gwaith a Phensiynau a chynllunnir y bydd y tîm ymchwilio i dwyll yn trosglwyddo drosodd i’r Adran ar gyfer Gwaith a Phensiynau yn Ebrill 2015. Mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio gyda’r Adran ar gyfer Gwaith a Phensiynau hyd nes y bydd y gwasanaeth newydd wedi ei sefydlu.

Tynnwyd sylw at hyn trwy’r wlad oherwydd bod yr Awdurdod Twyll Cenedlaethol wedi dwyn sylw at fathau eraill o dwyll a fedr ddigwydd o fewn Awdurdodau Lleol na fyddai'r SFIS yn ymchwilio iddynt, a dylid rhoi sylw i’r ffaith y gall yr Awdurdodau Lleol golli ymchwilwyr profiadol iawn sydd wedi cael hyfforddiant i ymchwilio i achosion o dwyll a’u herlyn.

## 13. ADOLYGU’R POLISI

Adolygwyd Polisi’r Awdurdod ar gyfer Atal Twyll a Llygredd ddiwethaf yn 2007. O’r herwydd, mae’r polisi bellach wedi ei adolygu a’i ddiweddaru ac mae’n destun adroddiad ar wahân i'r Pwyllgor hwn.

**JOHN FIDOE**
**PENNAETH GWASANAETH – ARCHWILIO**
**ANDREW WILLIAMS**
**RHEOLWR TWYLL DROS DRO** **25 MEDI 2012**

**ATODIAD 1**

**ENGHRAIFFT O ERLYNIAD**

Un achos arwyddocaol yn ystod y flwyddyn a arweiniodd at erlyniad llwyddiannus oedd un lle roedd unigolyn yn hawlio Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor ar gyfer cyfeiriad yn Amlwch. Derbyniwyd honiad ei fod yn hunangyflogedig a'i fod yn rhedeg disgos symudol. Nid oedd wedi rhoi gwybod am hyn. Dechreuwyd ymchwiliad a chafwyd tystiolaeth o'i gyflogaeth gan amryw o'r tai tafarn a'r gwestai lleol lle roedd wedi gweithio ac fe'i galwyd i mewn am gyfweliad. Yn ystod y cyfweliad, gwadodd ei fod yn gwneud unrhyw waith ar sail hunangyflogedig. Cafwyd rhagor o wybodaeth ar ffurf datganiadau gan dystion gan bobl a oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth disgo a gwahoddwyd yr ymgeisydd i gyfweliad arall ond ni fynychodd. Cafodd ei fudd-dal ei ailgyfrifo a gwelwyd ei fod wedi cael £4,650 yn ormod o Fudd-dal Tai a £1,342 yn ormod o Fudd-dal y Dreth Gyngor rhwng Mehefin 2009 a Chwefror 2011.

Er na ddaeth yr hawlydd i unrhyw un o'r cyfweliadau eraill a drefnwyd, ystyriwyd bod digon o dystiolaeth i ddangos anonestrwydd clir a bod yr achos yn un addas ar gyfer ei erlyn. Yn Awst 2011, cafodd wŷs i ymddangos yn Llys Ynadon Caergybi lle llediodd yn ddieuog i'r cyhuddiadau o dwyll budd-dal. Cynhaliwyd yr achos yn y Llys Ynadon ym mis Tachwedd 2011 ac, yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynwyd gan ymchwilydd y Cyngor, cafwyd ef yn euog o droseddau anonestrwydd ynghylch twyll budd-dal. Fe'i gorchmynnwyd i 250 awr o wasanaeth cymunedol ac i dalu £500 o gostau.

**ATODIAD 2**

**DATGANIAD I'R WASG**
**ERLYN TRI THWYLLWR BUDD-DALIADAU YNYS MÔN**

**Cafodd gwraig o Fôn a oedd wedi twyllo er mwyn hawlio £23,000 mewn budd-daliadau ei gorchymyn heddiw (Dydd Iau, Ionawr 26ain) ...................**

Clywodd Ynadon Caergybi sut yr oedd ymchwiliad ar y cyd rhwng Tîm Twyll y Cyngor Sir a'r Adran Gwaith a Pensiynau wedi dal Helen Murphy.

Roedd Murphy, o Deras Rehoboth, Llanfaelog, wedi hawlio Cymhorthdal Incwm a Budd-dal Dreth Gyngor yn dwyllodrus ym mis Gorffennaf 2008. Nid oedd wedi datgan dros £16,000 mewn cynilion wrth hawlio'r budd-daliadau.

Plediodd yn euog i ddau gyhuddiad o wneud datganiad ffals mewn modd anonest er mwyn hawlio budd-dal. Cafodd £2,420.62 mewn budd-dal Dreth Gyngor a £20,938.89 Cymhorthdal Incwm dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r arian, nad oedd yn fod i'w dderbyn, eisoes wedi ei dalu yn ôl.

Yn gynharach yr wythnos yma, cafodd dau dwyllwr budd-daliadau arall eu dirwyo yn Lys Ynadon Caergybi.

Roedd Trevor Williams, o Tai Newydd, Brynsiencyn, wedi peidio datgan ei wir incwm wrth hawlio Budd-dal Tai a'r Dreth Gyngor.

Darganfuwyd gan Menter Atal Twyll Cenedlaethol (NFI), sydd yn cymharu data rhwng awdurdodau ag adrannau'r llywodraeth, fod Williams wedi bod yn derbyn pensiwn galwedigaethol o oddeutu £330 y mis gan Gyngor Sir Fflint (ar ran Cronfa Bensiwn Clwyd) ac nad oedd wedi datgan hyn wrth hawlio budd-dal Tai a Dreth Gyngor ym mis Awst 2006. Gwnaeth ddau ddatganiad ffug arall rhwng 2006 a 2008.

Plediodd yn euog i chwe chyhuddiad o wneud datganiadau ffug er mwyn hawlio budd-dal Tai a Dreth Gyngor. Derbyniodd ddirwy o £200 ar gyfer y ddau gyhuddiad cyntaf; a gorchmynnwyd iddo dalu £240 mewn costau a gordal dioddefwr o £15. Bydd rhaid iddo hefyd dalu cyfanswm o £13,561.31 yn ôl i'r Cyngor ac mae trefniadau yn eu lle er mwyn adennill y swm yma.

Cafodd Lynne Williams, o Llwyn Ysgaw, Llanddona, ddirwy am beidio â datgan incwm a olygodd ei bod wedi derbyn £3,817.59 mewn Budd-dal Dreth Gyngor dros gyfnod o bum mlynedd.

Dangosodd gwybodaeth a dderbyniwyd drwy'r System Cymharu Data Budd-dal Tai fod cynilion heb ddatgan i'r Cyngor. Datgelodd ymchwiliad ei bod hefyd yn derbyn pensiwn galwedigaethol gan gyflogwyr blaenorol.

Er bod ei chais gwreiddiol i Fudd-dal Dreth Gyngor yn un cywir, roedd wedi derbyn cyfandaliad a'r pensiwn ym mis Hydref 2006. Roedd hyn yn newid yn ei hamgylchiadau, ond roedd wedi peidio, yn anonest, â datgan hyn i'r Cyngor.

Fe ddaru Lynne Williams gydweithio'n llawn gyda thîm ymchwilio'r Cyngor a derbyniwyd ei bod wedi ad-dalu'r mwyafrif o'r arian yr oedd wedi ei hawlio drwy dwyll. Plediodd yn euog i ddau gyhuddiad o beidio, yn anonest, â datgan newid yn ei hamgylchiadau er iddi wybod y byddai hynny wedi effeithio ei hawliad budd-dal. Cafodd ddirwy o £160 yr un ar gyfer y ddau gyhuddiad; £240 mewn costau a gordal dioddefwr o £15.

Pwysleisiodd llefarydd ar ran Cyngor Sir Ynys Môn, “Mae’r tri achos yma’n dangos ein bod yn benderfynol o ddileu twyll budd-dal drwy amryw o ffyrdd. Rydym yn parhau i ymchwilio achosion adnabyddir drwy gymharu data hefo data Menter Atal Twyll Cenedlaethol a’r HBMS. Mae’n bwysig bod unrhyw un sydd yn hawlio budd-dal yn datgan eu gwir amgylchiadau ac yn ein hysbysu yn fuan o unrhyw newidiadau. Fel yn yr achosion yma, mae’n angen i ddatgan unrhyw incwm o bensiwn galwedigaethol (neu waith) yn glir. Gall peidio gwneud hynny arwain at eich erlyn am dwyll budd-dal yn y dyfodol.”

**DIWEDD**